Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Y Rhagolygon ar gyfer Incwm i'r Sector Addysg Uwch yng Nghymru o 2011 – 2012 tan 2016 - 2017.**

**Dyddiad:** **15 Rhagfyr 2010**

**Gan:** **Leighton Andrews, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Yn fy natganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 30 Tachwedd, cyhoeddais ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i benderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu ffioedd dysgu mewn sefydliadau addysg uwch yn Lloegr.

Fel yr amlinellais yn fy natganiad, mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, waeth ble maent yn dewis astudio. Hefyd mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod Cymru'n elwa, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol ar fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad mewn addysg uwch yng Nghymru. Yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, amlinellwyd ein hamcanion ar gyfer addysg uwch. Nodwyd y byddem yn adeiladu dyfodol addysg uwch ar seiliau cadarn cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi ffyniannus.

Mae'n hymateb i'r cynnydd mewn ffioedd dysgu yn Lloegr yn golygu y gallwn barhau i roi cymhorthdal cyhoeddus sylweddol i'r sector addysg uwch yng Nghymru, gan barhau i roi cymhorthdal i addysg uwch myfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

Er mwyn talu am y cynnydd mewn cymorth ffioedd i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, cyhoeddais y byddem yn brigdorri tua 35% o grant addysgu CCAUC ac y byddai incwm sefydliadau addysg uwch Cymru tua'r un fath mewn termau real yn 2016-17 ag yn 2012-13.

Rwy'n teimlo y byddai o werth i aelodau'r Cynulliad weld y ffigurau sy'n sail i'n model.

Mae'r tablau a'r siartiau canlynol yn amcangyfrif y rhagolygon diweddaraf ar gyfer yr incwm i'r sector addysg uwch yng Nghymru rhwng 2011-2012 a 2016-2017. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwneud nifer o ragdybiaethau modelu, a chan gydnabod y risgiau ynghylch y rhain, yn rhoi syniad o effaith y dull

gweithredu arfaethedig ar incwm y sector addysg uwch yn ei gyfanrwydd (ac eithrio unrhyw newidiadau i ffioedd a chostau rhan amser).

Mae'r dadansoddiad yn rhagamcanu o waelodlin data cofnodion ariannol yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 2008/09, ynghyd â rhagolygon Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y grantiau. Caiff incwm ychwanegol yn sgil cynnydd mewn ffioedd amser llawn ei amcangyfrif drwy ragamcanu niferoedd y myfyrwyr a thybio mai £7,000 fydd y ffioedd ar gyfartaledd i fyfyrwyr newydd 2012, gyda chynnydd mewn chwyddiant yn dilyn. Heblaw am grant y corff ariannu a ffioedd i fyfyrwyr amser llawn, y dybiaeth yw bod ffynonellau eraill o incwm fel incwm ymchwil yn gyson dros amser, mewn termau real.

Mae tabl 1 isod yn dangos y rhagolygon ar gyfer 2011-12 i 2016-17.


**Tabl 1: Incwm rhagamcanol sefydliadau addysg uwch Cymru, gyda grant ffïoedd dysgu a ffïoedd o £7,000 ar gyfartaledd, mewn arian parod**

*£Miliwn*

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grantiau'r corff ariannu | 395 | 354 | 325 | 307 | 300 | 301 |
| Ffïoedd israddedig / TAR amser llawn | 224 | 254 | 308 | 357 | 391 | 411 |
| *lefel gyfredol y ffïoedd* | *224* | *229* | *234* | *239* | *245* | *252* |
| *incwm ffïoedd ychwanegol net* | *0* | *25* | *74* | *118* | *146* | *159* |
| Contractau addysg a ffïoedd eraill | 158 | 162 | 167 | 171 | 176 | 181 |
| Grantiau/contractau ymchwil | 161 | 163 | 167 | 172 | 176 | 181 |
| Incwm arall | 243 | 246 | 253 | 260 | 267 | 274 |
| Cyfanswm, | 1,180 | 1,179 | 1,219 | 1,267 | 1,311 | 1,348 |


*Ffynhonnell: rhagolygon LlCC, cofnod cyllid HESA a rhagamcan o niferoedd myfyrwyr*

Dangosir y data yn nhabl 1 yn siart 1 isod, yna siart 2 sy'n dangos yr un wybodaeth mewn termau real gyda phrisiau 2011-12.



**Siart 1: Incwm rhagamcannol sefydliadau addysg uwch gyda ffïoedd o £7,000 ar gyfartaledd a'r grant ffïoedd dysgu, mewn arian parod**

Byddwn yn fodlon gwneud datganiad llafar cyn gynted â phosibl yn y sesiwn newydd os yw Aelodau'r Cynulliad am i mi wneud hynny.


Siart 2: Incwm rhagamcannol sefydliadau addysg uwch gyda ffïoedd o £7,000 ar gyfartaledd a'r grant ffïoedd dysgu, mewn termau real (2011-12)
£Miliynau
1,400
1,200
1,000
800
600
400
200
0
2011-12
2012-13
2013-14
2014-15
2015-16
2016-17